**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Mehefin 2019 |

## PWNC

Eitem 6 :RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (31 MAWRTH 2019)

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £7,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £1,739,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £71,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £158,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £184,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad